Ynni Lleol | Local Energy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Fferm Solar Adfywio Gŵyr



**Project type:** Solar

**Lleoliad:** Fferm Killan, Dynfant, Abertawe

**Nod:** Datblygu fferm solar sy'n eiddo i'r gymuned ac ailfuddsoddi ei elw mewn bywoliaethau ar y tir sy'n sensitif yn ecolegol ac addysg ar ddatblygiad cynaliadwy.

## Gwybodaeth am y cynllun

Fferm solar Adfywio Gŵyr yn Nynfant yw'r fferm solar gyntaf yng Nghymru sy'n eiddo i'r gymuned. Mae gan y fferm solar gapasiti o 1 MW a dechreuodd gynhyrchu ar 31 Mawrth 2017. Mae'n derbyn incwm o werthiannau trydan a Thystysgrifau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy. Mae'r safle yn cynhyrchu trydan sy'n cyfateb i anghenion dros 300 o gartrefi cyffredin yn Abertawe.

Sefydlwyd y prosiect gan Ymddiriedolaeth Elusennol Y Felin Ddŵr a Chwmni Buddiannau Cymunedol Cydweithredol Gower Power a ariannodd Adfywio Gŵyr Cyfyngedig yn 2017 i ariannu'r fferm solar, bod yn berchen arni a'i rheoli ac ailfuddsoddi elw'r prosiect mewn mentrau cymdeithasol lleol a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd addysgol a ddarperir gan y safle.

## Partneriaid

Mae llawer o sefydliadau wedi cyfrannu at y gwaith o ddatblygu a gosod fferm solar Adfywio Gŵyr. Ceir manylion prif bartneriaid y prosiect isod:

**Adfywio Gŵyr Cyf:** Cymdeithas Budd Cymunedol gofrestredig gyda bwrdd o gyfarwyddwyr lleol. Yn dilyn y gwaith adeiladu, lansiodd Adfywio Gŵyr gynnig cyfranddaliadau yn gwahodd pobl i fuddsoddi yn y prosiect (er mwyn talu'r cyllid adeiladu yn ôl) a dod yn aelodau o'r gymdeithas; gan ganiatáu iddynt gael pleidlais o ran sut mae'r sefydliad yn gweithredu a sut y caiff buddiannau eu darparu. Bydd gan yr holl aelodau bleidlais gyfartal ni waeth beth fo maint eu buddsoddiadau/nifer y cyfranddaliadau a ddelir.

**Ymddiriedolaeth Y Felin Ddŵr:** ymddiriedolaeth elusennol ac aelod sylfaenol o Adfywio Gŵyr Cyfyngedig. Y Felin Ddŵr a sefydlodd ac a oedd yn berchen ar y prosiect drwy gyfnod ei ddatblygiad, cyn sefydlu Adfywio Gŵyr Cyfyngedig. Mae'r ymddiriedolaeth hefyd yn berchen ar Ganolfan Treftadaeth Gŵyr, atyniad lleol i dwristiaid a chanolfan adnoddau gwledig.

**Juno Energy:** ymgynghorwyr technegol a fu'n gweithio ar y prosiect o'r astudiaeth dichonoldeb gychwynnol i reoli prosiect y contract adeiladu.

**Cwmni Buddiannau Cymunedol Cydweithredol Gower Power:** aelod sylfaenol o Adfywio Gŵyr Cyfyngedig. Gower Power a gafodd y syniad o wneud y datblygiad yn eiddo i'r gymuned, a chafodd ei gontractio i weithio ar y prosiect drwy gyfnod y datblygiad, gan gyfrannu at yr astudiaethau dichonoldeb, cynllunio busnes a rheoli prosiect a rheoli'r gwaith o ymgysylltu â rhanddeiliaid a chynnig cyfranddaliadau cymunedol.

**Gwasanaeth Ynni Lleol Llywodraeth Cymru:** wnaeth ddarparu cymorth technegol ac ariannol i'r prosiect, gan gynnwys grantiau datblygu, benthyciad datblygu a benthyciad cyfalaf, a wnaeth alluogi'r prosiect i gael ei adeiladu cyn lansio'r cynnig cyfranddaliadau cymunedol.

## Beth oedd y canlyniad?

Gosodwyd cyfanswm o 3568 o fodiwlau solar ffotofoltäig (capasiti 1 MW) ar 3.5 erw o dir yn Fferm Killan, Dynfant, Abertawe ar ddechrau 2017.

Darparwyd benthyciad cyfalaf o £992,000 gan Wasanaeth Ynni Lleol Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2017 er mwyn galluogi'r gwaith o adeiladu'r prosiect. Lansiwyd cynnig cyfranddaliadau cymunedol ym mis Mai 2017 i alluogi'r cyhoedd i fuddsoddi yn y cynllun a thalu'r benthyciad gan Ynni Lleol yn ôl. Cynigiwyd trothwy buddsoddi gofynnol is i bobl leol i annog aelodaeth ehangach o'r gymuned leol.

Rhagwelir y bydd y Gronfa Budd Cymunedol o'r prosiect yn creu dros £500,000 dros oes y prosiect i'w ailfuddsoddi mewn mentrau cymdeithasol lleol.

## Beth a ddysgwyd?

### Gall cofrestru cymelldaliad gymryd amser

Gwnaeth y Cynllun Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy gau i ymgeiswyr newydd am hanner nos ar 31 Mawrth 2017 ac Adfywio Gŵyr oedd un o'r prosiectau solar olaf i gofrestru ar gyfer y cynllun. Roedd llawer o'r prosiectau eraill yn gweithio tuag at yr un dyddiad cau gan achosi nifer fawr o geisiadau i ymuno â'r cynllun gydag Ofgem ar yr un pryd. Achosodd hyn oedi wrth i Ofgem brosesu'r ceisiadau ac ar adeg ysgrifennu hwn roedd y fferm solar yn aros o hyd am gadarnhad terfynol fod y prosiect wedi'i achredu ar gyfer y cynllun. Ni fydd y prosiect yn derbyn unrhyw refeniw o werthiannau'r Tystysgrifau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy nes ei fod wedi'i achredu ar gyfer y cynllun.

### Mae angen rheoli'r cyfnod adeiladu yn agos

Gosodwyd y paneli solar ar adeg brysur, gyda llawer o ffermydd solar eraill yn ceisio cael eu hadeiladu erbyn yr un dyddiad cau. Fel y cyfryw, roedd y contractwyr o dan lawer o bwysau; yn gweithio ar nifer o brosiectau ar yr un pryd. Roedd yn rhaid i reolwyr lleol a rheolwyr prosiect Adfywio Gŵyr a benodwyd reoli'r contractwyr yn agos i sicrhau bod prosiect Adfywio Gŵyr yn cyflawni o fewn ei ddyddiad cau, a bod unrhyw rwystrau a gafwyd yn ystod y gwaith adeiladu yn cael eu datrys yn gyflym ac yn effeithlon.

### Mae llawer o gymorth ar gyfer ynni cymunedol ar gael

Mae fferm solar Adfywio Gŵyr wedi bod ar waith ers 2014. Yn ystod y cyfnod hwn mae'r prosiect wedi derbyn cymorth technegol a/neu ariannol gan y sefydliadau canlynol:

- Llywodraeth Cymru drwy raglen Ynni'r Fro a'r Gwasanaeth Ynni Lleol
- Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig
- Cronfa Bancio Cymunedol Robert Owen
- Adfywio Cymru
- Canolfan Cydweithredol Cymru drwy'r Uned Cyfranddaliadau Cymunedol.

Ers lansio'r Cynnig Cyfranddaliadau Cymunedol, prynwyd llawer o gyfranddaliadau gan y cyhoedd. Ar adeg ysgrifennu hwn roedd 71% o gyfanswm cyfalaf y prosiect wedi ei godi mewn cyfranddaliadau.

## Cymorth gwasanaeth Ynni Lleol Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r prosiect hwn o'r syniad cychwynnol hyd at ei weithredu, drwy raglen Ynni'r Fro a'r Gwasanaeth Ynni Lleol. Mae'r systemau cymorth hyn wedi rhoi cymorth technegol, cyllid datblygu a chyllid pontio cyfalaf. Darparwyd cyllid datblygu fel cymysgedd o grantiau a benthyciadau, gyda benthyciadau yn cael eu rhoi ar gyfer y gwaith datblygu uwch angenrheidiol i fynd â'r prosiect hyd at y cam adeiladu.

Darparodd y Gwasanaeth Ynni Lleol fenthyciad pontio cyfalaf o £992,000 (a weinyddwyd gan Cyllid Cymru), a wnaeth alluogi'r prosiect i ddechrau adeiladu a chyflawni ei Rwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy o fewn y dyddiad cau, cyn cynnig cyfranddaliadau cyfalaf. Mae'r cynnig cyfranddaliadau bellach wedi cael ei lansio i ailariannu'r benthyciad cyfalaf hwn a thalu Llywodraeth Cymru yn ôl.

## Ynni Lleol

Mae'r gwasanaeth Ynni Lleol yn cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i bobl leol drwy gymorth swyddog datblygu, grantiau a benthyciadau. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan Ynni Lleol.

Ceir rhagor o wybodaeth yn regengower.co.uk

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:**

**Paul Smith**
**Rheolwr y Rhaglen Ynni Lleol**

**e: ynnilleol@est.org.uk**



Ynni Lleol | Local Energy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government